**Mid 02-01(min)**

**Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 18fed Mai 2001

**Amser:** 10.30am

**Lleoliad:** Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Elin Jones, Cadeirydd** | Plaid Cymru | Ceredigion |
| **Cynog Dafis** | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Glyn Davies** | Ceidwadwr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Delyth Evans** | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Kirsty Williams** | Democrat Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Julia Annand** | Clerc y Pwyllgor |
| **Stephen Thomas** | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| **Phil Mulraney** | Cefnogaeth o’r Ysgrifenydddiaeth |
| **Judith Yorston** | Cefnogaeth o’r Ysgrifenyddiaeth |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| **Mick Bates** | Democrat Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| **Nick Bourne** | Ceidwadwr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Eilyddion:** Dim un

**Datgan buddiannau:** Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

**Sylwadau Agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r Llyfrgellydd am ganiatáu i'r Pwyllgor ddefnyddio cyfleusterau Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Eglurodd nad oedd Mick Bates AC yn medru bod yn y cyfarfod oherwydd amheuaeth fod ei fuches yn dioddef o glwy'r traed a'r genau. Anfonodd ddymuniadau gorau at Mick Bates ar ran y Pwyllgor a dywedodd ei bod yn bwysig peidio ag anghofio bod llawer mewn cymunedau gwledig yn parhau i ddioddef o ganlyniad i'r argyfwng traed a genau.

Pwrpas y cyfarfod oedd trafod adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o'i weithdrefnau. Cyhoeddwyd yr adolygiad gan Brif Weinidog Cymru ar 12 Gorffennaf 2000, i drafod sut y bu'r Cynulliad yn gweithredu yn ystod ei flwyddyn gyntaf, a sefydlu pa wersi y gellid eu dysgu o hynny. Gwnaeth hyn gyda chefnogaeth lawn y Llywydd ac arweinwyr y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru.

Rhoddodd Kirsty Williams AC, sy'n aelod o'r grp adolygu, y cefndir i'r adolygiad. Dywedodd nad oedd yr adolygiad yn ymwneud â materion polisi ond â sut y mae'r Cynulliad yn cynnal ei fusnes. Mae'r grp yn cyfarfod yn fisol ac mae'n awyddus iawn i glywed sylwadau yngln â sut y gallai'r Cynulliad wella'r ffordd y mae'n gweithio. Cyhoeddwyd papur ymgynghorol yn gynharach eleni a chafwyd llawer o ymatebion eisoes. Dyma rai o'r pynciau trafod a awgrymir:

- Rôl a gwaith y pwyllgorau pwnc
- Perthynas y Cynulliad â chyrff allanol
- Pa mor dda y mae'r Cynulliad yn cyfathrebu â'r cyhoedd
- Cyfle cyfartal

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad**
**Papur: MID-02-01(p.1)**

**Y Cyng Dai Lloyd-Evans, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion**

Prif bwyntiau'r cyflwyniad oedd:

- Mae perthynas y Cynulliad ag awdurdodau lleol wedi tyfu a datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae ymarferion ymgynghori yn parhau yn broblem. Mae ymgynghori yn rhan allweddol o unrhyw broses ddemocrataidd, ond mae awdurdodau lleol wedi darganfod yn aml eu bod yn cael eu llethu gan swmp y gwaith papur sy'n deillio o'r Cynulliad. Dylai papurau ymgynghorol fod yn gryno ac yn hawdd eu darllen, ond anaml y bu hynny'n wir gyda dogfennau diweddar.
- Dylai'r Cynulliad fynnu archwilio a chyfrannu at ddogfennau ymgynghorol o'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac adrannau eraill y llywodraeth. Cyfeiriodd at esiampl ddiweddar o bapur ymgynghorol a oedd yn deillio o'r Weinyddiaeth Amaeth ac a oedd yn cynnwys cymal y byddai'n amhosibl ei weithredu yng Nghymru.
- Mae perthynas y Cynulliad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn adeiladol iawn, er bod lle i wella yn y fan hon hefyd a chafwyd enghreifftiau o Weinidogion y Cynulliad yn trosglwyddo negeseuon croes i'w gilydd i CLlLC.
- Cafwyd mwy o barodrwydd yn ddiweddar ar ran Gweinidogion a swyddogion i ymweld ag awdurdodau lleol a chynnal trafodaethau gyda hwy.
- Mae'n anodd dod o hyd i unrhyw dystiolaeth fod y pwyllgorau rhanbarth wedi newid bywydau'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Nid ydynt wedi ychwanegu nemor ddim at y broses ddemocrataidd i wella bywyd yn y rhanbarthau.
- Ers ei sefydlu, mae'r Cynulliad wedi bod yn destun trafod parhaus yn y cyfryngau. Mae busnes y Cynulliad yn llanw tudalen neu ddwy y dydd yn y wasg Gymreig.
- Mae angen i'r Cynulliad ddod yn sefydliad hyderus, sy'n gallu gwella bywydau pobl Cymru ac, yn bwysicach, i gael y per i wneud hynny.
- Mae angen i swyddogion y Cynulliad hefyd gael yr hyder i ymgyfarwyddo â'r broses ddemocrataidd newydd.

Gwnaethpwyd y pwynt canlynol yn y sesiwn holi ac ateb dilynol:

- Ailfynegodd y Cyng Lloyd-Evans ei farn fod y berthynas rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol yn dda, ond ei bod yn bwysig nad yw'r naill yn tresmasu ar bwerau'r llall.

**Dr Dafydd Trystan, Prifysgol Cymru, Aberystwyth**

Gwnaeth Dr Trystan y pwyntiau canlynol yn ei gyflwyniad:

- Mae Grp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad yn gweithredu confensiwn cyfansoddiadol i Gymru. Mae'n caniatáu i bobl Cymru drafod sut y mae'r Cynulliad yn gweithio.
- Mae angen sicrhau bod gweithdrefnau wedi eu sefydlu o fewn y Cynulliad sy'n adlewyrchu natur gymhleth y setliad datganoli. Mae angen i boblogaeth Cymru ddeall yn glir beth yw union bwerau'r Cynulliad.
- Mae'n hanfodol bwysig i lwyddiant y Cynulliad fod datganoli yn cael ei wreiddio yn San Steffan yn ogystal ag yng Nghaerdydd. Mae rhai adrannau yn San Steffan wedi bod yn araf yn addasu i'r sefyllfa wleidyddol sy'n newid.
- Dylai Swyddfa Cymru hefyd fod yn dadlau achos Cymru yn San Steffan, ond nid yw'r adnoddau a ddyrannwyd iddi hyd yn hyn wedi bod yn ddigonol i'r diben hwn.
- Mae angen cael rhaniad amlwg rhwng gwaith y Cynulliad a gwaith Cabinet y Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae weithiau'n anodd gwahaniaethu rhwng y ddau.
- Roedd Dr Trystan yn amau ai pwyllgorau rhanbarth oedd y dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu â'r rhanbarthau.
- Mae angen i weision sifil yn y Cynulliad Cenedlaethol gael eu hyfforddi i feddwl am atebion Cymreig i broblemau Cymreig.
- Mae angen i'r Cynulliad hefyd ddatblygu partneriaethau gyda'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, fel y gall y gymdeithas gyfrannu at feysydd polisi amrywiol. Mae datblygu isadeiledd polisi yng Nghymru yn fater o bwys mawr.
- Mae sialensiau difrifol i ddod ar gyfer y Cynulliad. Fel sefydliad, nid yw eto wedi tanio brwdfrydedd ymhlith y cyhoedd yng Nghymru.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb dilynol:

- Mae angen i'r Cynulliad ddarganfod ffyrdd o drosglwyddo ei bolisïau i'r cyhoedd yn well. Dylai strategaeth rheoli'r cyfryngau fod o gymorth mewn perthynas â hynny.
- Yn yr Alban, ychydig o amwysedd sy'n bodoli rhwng Gweithrediaeth yr Alban a Senedd yr Alban. Mae'r etholwyr yn deall yn glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy; nid yw hynny'n wir yng Nghymru.
- Mae angen i Swyddfa Cymru sicrhau llais Cymreig mewn deddfwriaeth Brydeinig. Byddai hynny'n ffordd effeithiol o ddatblygu perthynas rhwng adrannau a chadw llygad manwl ar yr Offerynnau Statudol sy'n mynd drwy'r Senedd. Mae gan y Cynulliad rôl mewn archwilio deddfwriaeth, ond o ystyried y cyfyngiadau amser y mae'r Cynulliad yn gweithredu oddi mewn iddynt, mae angen ystyried y rôl hon yn ofalus.
- Ni ddylai'r Cynulliad o angenrheidrwydd fabwysiadu agenda wleidyddol "gynhwysol" . Mae a wnelo gwleidyddiaeth yn sylfaenol ag anghytuno a dadlau gwleidyddol iach.
- Mae gan bwyllgorau pwnc y Cynulliad rôl bwysig i'w chwarae mewn datblygu polisi ac archwilio gwaith y Gweinidogion.

**Cyflwynydd: Andrew Green, Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Gwnaeth Mr Green y pwyntiau canlynol yn ei gyflwyniad:

- Pwysleisiodd Mr Green ei fod yn siarad yn bersonol ac nid ar ran Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Roedd yn gyfarwydd â rôl y pwyllgorau pwnc. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 a'r Pwyllgor Diwylliant ar nifer o achlysuron. Ar y cyfan, roedd Mr Green yn teimlo bod y pwyllgorau pwnc yn cyflawni eu gwahanol swyddogaethau o ddatblygu ac archwilio polisi yn llwyddiannus, ond bod lle i wella yn y meysydd canlynol:

- Nid oes gan y Pwyllgorau Pwnc yn aml ddigon o amser i gael golwg ddofn ar faes polisi penodol
- Er bod Pwyllgorau yn mentro y tu allan i Fae Caerdydd o bryd i'w gilydd, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal i'w hystyried yn anhygyrch. Dylai'r Pwyllgorau gynnal ymweliadau a thrafodaethau mwy anffurfiol o un cwr o Gymru i'r llall.
- Gallai'r Pwyllgorau wneud rhagor i gadw llygad ar ddeddfwraieth a datblygiad polisi yn San Steffan.
- Mae angen rhoi rhagor o amser i waith y pwyllgorau pwnc, efallai ar draul y pwyllgorau rhanbarth, nad ydynt eto wedi darganfod rôl ystyrlon iddynt eu hunain.

- Yn yr un modd ag y ceir Pwyllgorau sy'n edrych ar faterion Ewropeaidd a chyfle cyfartal, dylid hefyd cael pwyllgor sefydlog neu drawsbynciol yn edrych ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae Mr Green yn aelod o'r grp gwaith sy'n datblygu strategaeth TGCh yng Nghymru. Heb strwythur i roi argymhellion y grp ar waith, mae perygl y gellid eu colli. Mae enghreifftiau da o lywodraeth gydgysylltiedig yn bodoli, ond mae'r rheini'n brin.
- Nid yw'r Cynulliad wedi llwyddo i'w sefydlu ei hun yng nghalonnau a meddyliau pobl Cymru. Mae'n debyg mai difaterwch sydd i gyfrif am hyn yn hytrach na diffyg diddordeb. Mae angen i'r Cynulliad ddangos i bobl Cymru ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.
- Mae'r Cynulliad yn cyfathrebu'n dda mewn rhai meysydd ond dylai ystyried cynnal cyfarfodydd mwy anffurfiol y tu allan i Gaerdydd a sut i gyfathrebu'n well â phobl ifanc, o bosibl drwy wneud mwy o ddefnydd a gwell defnydd o dechnoleg newydd.
- Mae safwe newydd y Cynulliad yn fwy anodd ymdopi ag ef na'r un blaenorol. Nid yw'n cynnwys digon o wybodaeth gefndirol yngln â sut y mae'r Cynulliad yn gweithio.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

- Gallai Pwyllgorau Pwnc arbenigo mwy mewn meysydd neilltuol ac efallai ddosbarthu cyfrifoldeb am bynciau penodol i aelodau unigol.

- Byddai’n rhaid i'r Pwyllgorau Pwnc ddewis a dethol pe byddent yn edrych yn fanwl ar is-ddeddfwriaeth.
- Dylid cael fforwm TGCh i gefnogi’r E-Weinidog. Teimlid y gallai pwyllgorau pwnc wneud gwell defnydd o’r amser a ddyrannwyd i chwe chyfarfod blynyddol y pwyllgorau rhanbarth.

**Eitem 2: Cyflwyniadau Cyhoeddus**
**Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi**

Cynrychiolydd:

Philippa Ford, Swyddog Polisi

Gwnaeth Ms Ford gyflwyniad ar weithdrefnau’r Cynulliad. Dyma brif bwyntiau’r cyflwyniad:

- Mae gan y sefydliad 1,200 o aelodau yng Nghymru a’r sefydliad yw’r corff Addysgol a Phroffesiynol a'r Undeb Llafur ar gyfer yr aelodau hynny.
- Roedd y nifer fawr o ymgynghoriadau yr ymgymerwyd â hwy gan y Cynulliad wedi tynnu sylw at yr angen i resymoli’r gwahanol restrau postio oedd yn cael eu defnyddio. Da o beth fyddai i’r Cynulliad ystyried pwy yw'r chwaraewyr a’r partneriaid allweddol ym maes gweithwyr iechyd proffesiynol.
- Gyda golwg ar ddarparu cyfle cyfartal i gael gafael ar wybodaeth y Cynulliad, mae angen edrych ar fathau o gyfieithu ar wahân i Gymraeg/Saesneg. Yn ychwanegol at hynny, dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i alluogi pobl oedrannus, dall, byddar ac anabl i gall gafael ar wybodaeth.
- O blith cyfarfodydd y Pwyllgorau Rhanbarth, awgrymodd Ms Ford mai’r rhai a oedd wedi bod yn fwyaf defnyddiol iddi hi oedd y rhai a oedd yn canolbwyntio ar un mater penodol, megis Rhaglenni Gwella Iechyd. Roedd yn teimlo, er hynny, y byddai rhoi mwy o ran i’r cyhoedd a rhagor o gyfle i holi’r rheini a oedd yn bresennol wedi bod yn fuddiol.
- Yn gyffredinol, roedd y Cynulliad wedi gwneud defnydd da o Dechnoleg Gwybodaeth i ddod i gysylltiad â phobl yng Nghymru, ond byddai rhagor o ddefnydd o ddadleuon cyhoeddus a sesiynau holi ac ateb yn rhoi cyfle i gynnal trafodaethau mwy ystyrlon.
- Dylai agendâu'r cyfarfodydd llawn gael eu cyhoeddi yn gynharach ymlaen llaw, a dylid darparu rhagor o leoedd eistedd i’r cyhoedd mewn cyfarfodydd llawn a phwyllgorau.
- Dylai darparu rhagor o leoedd parcio ar gyfer ymwelwyr a/neu well cysylltiadau trafnidaeth gyhoeddus hefyd fod yn flaenoriaeth.

**Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru**

Cynrychiolydd: Gareth Evans Jones

Er ei fod yn cael ei gyflogi ar lefel genedlaethol, nododd Gareth Evans Jones y byddai'n trafod gweithgareddau'r CFfI o fewn rhanbarth Ceredigion.

Dyma brif bwyntiau ei gyflwyniad:

- Mae gan Ffederasiwn Clybiau Ceredigion 780 o aelodau o 10 i 26 mlwydd oed.
- Mae'r Clybiau yn darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a sgiliau galwedigaethol a sgiliau bywyd, gan ddilyn gweithgareddau hamdden a gweithgareddau crefft, cymryd rhan mewn cystadlaethau a dysgu am faterion iechyd.
- Mae'r Clybiau yn trefnu llawer o weithgareddau elusennol i godi arian i'w cymunedau lleol ac yn gobeithio bod hynny'n annog aelodau i ddod yn ddinasyddion cyfrifol a gweithgar.
- Gofynnodd Gareth Evans Jones i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gydnabod y gwaith y mae'r CFfI yn ei wneud i gadw'r iaith yn fyw mewn cymunedau gwledig. Mae'r grant presennol a dderbynnir gan y Bwrdd yn £5,000 ar gyfer Cymru gyfan (sy'n cyfateb i 83c yr aelod).
- Mae Ffederasiwn Ceredigion yn derbyn £10,000 y flwyddyn gan Gyngor Sir Ceredigion a chodir unrhyw gyllid ychwanegol drwy ddigwyddiadau gwirfoddol megis cyngherddau.
- Mae gweithgareddau'r Clybiau wedi dioddef yn ddifrifol o ganlyniad i glwy'r traed a genau ac mae'r rhan fwyaf o'u gweithgareddau wedi eu canslo.
- Yng Nghyfarfod Blynyddol CFfI Cymru ym mis Medi mae'r Clybiau yn bwriadu ail-lansio ac ailfarchnata eu haelodaeth er mwyn denu aelodau newydd yn ogystal â lansio cynlluniau cyllido newydd.
- Dywedodd Gareth Evans Jones wrth y Pwyllgor fod Clybiau Ffermwyr Ifanc yn cynnig cyfleoedd a safon uchel o wasanaethau i bobl ifanc mewn ardaloedd lle mae yna brinder mudiadau ieuenctid cyfundrefnol.

**Martin Wright**

Gwnaeth Martin Wright gyflwyniad am ffermydd gwynt yng Ngheredigion. Dywedodd ei fod yn poeni bod ffermydd gwynt yn cael eu datblygu'n amhriodol yn ei dyb ef mewn rhai tirweddau trawiadol yng Ngheredigion.

Dyma brif bwyntiau ei gyflwyniad:

- Nid oedd Mr Wright yn erbyn defnyddio ynni'r gwynt, ond credai fod gormod o ffermydd gwynt ar raddfa fawr wedi eu datblygu ym Mynyddoedd y Cambria.
- Dylai datblygiadau ynni adnewyddol yng Nghymru fod yn esiampl dda i eraill ond, yn rhy aml, elw fu wrth wraidd y datblygiadau hyn yn hytrach na phryder am yr amgylchedd.
- Roedd datblygu ffermydd gwynt yn arwain at dirwedd 'diwydiannol' ym Mynyddoedd y

Cambria.

- Dywedodd Mr Wright fod yna bosibiliadau eraill yn lle ynni gwynt ac y gellir cymryd camau yn lleol i fynd i'r afael â phroblem fyd-eang y newid yn yr hinsawdd.
- Gofynnodd i'r Cynulliad ystyried y posibiliadau eraill yn lle ynni gwynt, megis defnyddio ffermydd gwynt ar y môr, a datblygu polisi ynni integredig.

**Eitem 3: Cofnodion cyfarfod 2 Chwefror – MID 01-01(min)**

Cymeradwywyd y cofnodion heb unrhyw newidiadau.

**Y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Gorffennaf yn Llanidloes a bydd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag ynni adnewyddol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**Mai 2001**